Derbyniodd Pwyllgor Gwaith CymdeithasCYSAGauC neges gan Vaughan Salisbury yn tynnu sylw at y newidiadau yn y grantiau hyfforddi athrawon. Mae CYSAG Ceredigion wedi anfon llythyrau at y Gweinidog Addysg a'r aelod seneddol lleol yn cwyno am y sefyllfa. Y rheswm am hyn yw bod darpar-athrawon AG sy'n bwriadu hyfforddi yn 2011-12 wedi colli eu harian hyfforddi, sef £7200. Teimlwyd y dylid o leiaf gwyno am y datblygiad hwn sy'n bygwth dyfodol hyfforddi arbenigwyr AG wrth iddynt ystyried mynd i mewn i'r proffesiwn addysgu.

Gwnaed ymholiadau pellach yn dilyn y Pwyllgor Gwaith sy'n profi bod *"Newidiadau i gymhelliannau hyfforddiant athrawon"* wedi eu cyhoeddi ar ddydd Mawrth Chwefror 8fed 2011 ac yn nodi y rhoddir cymorth i ddau brif grŵp:-

bydd cymhelliannau â blaenoriaeth (grantiau hyfforddi gwerth £9,000) ar gael i fyfyrwyr cymwys newydd sy'n dechrau ar gyrsiau mathemateg, cemeg, ffiseg neu Gymraeg ym mlwyddyn academaidd 2011/12.

bydd cymhelliannau eraill (grantiau hyfforddi gwerth £6,000) ar gael i fyfyrwyr cymwys newydd sy'n dechrau ar gyrsiau mewn ieithoedd tramor modern, bioleg neu wyddoniaeth gyfun / cyffredinol ym mlwyddyn academaidd 2011/12.

Ym mlwyddyn academaidd 2011/12, **ni fydd cymhelliannau HCA ar gael ar gyfer cyrsiau ôl-radd mewn pynciau uwchradd eraill** nac ar gyfer cyrsiau ôl-radd mewn pynciau cynradd.

Hefyd, ni fydd y grantiau addysgu (a adnabyddir fel 'golden hellos' yn Lloegr') a oedd yn arfer bod ar gael i athrawon sy'n cael swyddi addysgu pynciau penodol, ar ôl iddyn nhw gwblhau eu cyfnod cynefino yn llwyddiannus, yn parhau.

**Meddai Leighton Andrews:** "Rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar y cymhelliannau sydd wedi bod ar gael ar gyfer cyrsiau ôl-radd hyfforddiant cychwynnol athrawon yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r sefyllfa o ran anghenion y farchnad.

"Yn y flwyddyn 2011/12, byddwn ni'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau gan roi cymorth ar gyfer cyrsiau ôl-radd HCA uwchradd mewn mathemateg, y gwyddorau arbenigol, ieithoedd tramor modern a Chymraeg. Trwy wneud hynny, byddwn ni'n parhau i sicrhau:

bod myfyrwyr, sy'n dewis cyrsiau ôl-radd i hyfforddi fel athrawon, yn gallu dewis gan wybod y bydd yr un cymorth ar gael fel cymhelliant yng Nghymru ag sydd ar gael yn Lloegr.

y gallwn ni helpu i ddenu'r myfyrwyr mwyaf ymroddgar a galluog i hyfforddi fel athrawon ar gyrsiau â blaenoriaeth yng Nghymru

y gallwn ni helpu darparwyr HCA yng Nghymru i gystadlu'n effeithiol i ddenu'r ymgeiswyr mwyaf galluog ar gyfer y cyrsiau hynny."

**Sylwadau ar yr uchod:** Mae Cerdd ac Addysg Grefyddol yn colli nid yn unig eu statws 'pynciau prin' ond eu ffynhonnell ariannol sylfaenol.

Mae'r £1500 ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (y cwrs Gloywi Iaith) hefyd yn y fantol. Mae myfyrwyr sydd wedi cael eu derbyn ar gyfer Medi nesaf yn athro yn dal i ddisgwyl clywed beth fydd penderfyniad Leighton Andrews ar y mater.

Mae'r sefyllfa yn Lloegr yn waeth yn ôlpob son ond ein consyrn ni yw am y sefyllfa yng Nghymru a hefyd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel y mae'n effeithio ar Addysg Grefyddol. Elfen arall y dylid poeni amdano yw y bydd y ffigyrau y caniateir eu recriwtio yn cael eu lleihau yn sylweddol a'r nifer fydd yn mynd i'r proffesiwn yn lleihau yn o arw. Y gofid yw bydd Leighton Andrews yn lleihau'r nifer y flwyddyn ganlynol 2012-13. Rhaid I CYSAGau wylio'r sefyllfa yn ofalus a gweithredu yn l yr angen er mwyn gwarchod y pwnc i'r dyfodol.